# Parhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol

## Adroddiad Terfynol – Ionawr 2024

**Crynodeb Gweithredol** ... 3
**Cyflwyniad** ... 6
**Cefndir a chyd-destun** ... 6
**Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu - Parhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol** ... 7
**Canfyddiadau'r ymarfer ymgysylltu i barhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol** ... 10
***Mae partneriaethau'n adolygu eu cysondeb, a'u cysylltiadau, â phartneriaethau eraill yn eu rhanbarthau*** ... 10
***Anghysondeb rhwng partneriaethau amlbwrpas a phartneriaethau un pwrpas*** ... 12
***Dim barn gyson am y patrwm gorau na nifer y partneriaethau*** ... 12
***Mae perthnasoedd ac arweinyddiaeth unigol yn allweddol*** ... 13
***Gweld gwerth mewn hyblygrwydd a phenderfyniad lleol, a'r ymdeimlad o gyfrifoldeb lleol*** ... 13
***Canolbwyntio ar ganlyniadau, a defnyddio'r rhain i bennu cyfrifoldebau'r naill a'r llall*** ... 14
**Casgliadau** ... 14
**Meysydd arfaethedig ar gyfer gweithredu ar y cyd** ... 15
**Atodiad A - Partneriaethau o fewn cwmpas yr ymarfer ymgysylltu** ... 20

## Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r adroddiad hwn, sy'n nodi canlyniadau ein gwaith ymgysylltu gyda phartneriaethau strategol ledled Cymru. Mae hyn yn cyflawni un o ymrwymiadau pwysig y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio, gan adlewyrchu ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus mwy cydweithredol, effeithiol a chadarn.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu dull o weithio mewn partneriaeth a rhannu cyfrifoldebau rhwng partneriaid y Cytundeb Cydweithio gan amlygu cyd-ddyhead i symleiddio gweithio mewn partneriaeth. Gweithio ar draws ffiniau sefydliadol fel Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yw'r unig ffordd y gallwn ni fynd i'r afael â materion cymhleth fel llesiant, integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac ati. Rydym yn cydnabod gwerth a photensial gweithio mewn partneriaeth, yn ogystal â'r heriau a'r cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth hynny.

Rydym yn ddiolchgar i gadeiryddion partneriaethau a fu'n rhan o'r broses hon am eu didwylledd, eu gonestrwydd a'u safbwyntiau, yn ogystal â'r enghreifftiau o arferion da ac arloesi a rannwyd ganddynt.

Hoffem hefyd dalu teyrnged i swyddogion gweithgar yr holl sefydliadau sy'n cefnogi partneriaethau mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a'u creadigrwydd wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod partneriaethau yn cyflawni buddion gwirioneddol i bobl a chymunedau, yn arbennig yn ystod heriau digynsail pandemig Covid-19.

Mae arweinyddiaeth leol yn hanfodol er mwyn gweithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus ac rydym yn cymeradwyo'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan lawer o bartneriaethau o ran symleiddio eu strwythurau, unioni eu blaenoriaethau, a gwella eu gweithdrefnau llywodraethu ac ymgysylltu. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau a'r materion sy'n parhau i rwystro'r gweithio mewn partneriaeth gorau posibl, megis dyblygu, biwrocratiaeth, atebolrwydd a chapasiti.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i ysgogi trafodaeth a gweithredu pellach ymhlith partneriaid ar bob lefel, ac y bydd yn helpu i barhau i wella a symleiddio partneriaethau yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| **Rebecca Evans AS**<br>Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol | **Cefin Campbell AS**<br>Aelod Dynodedig Plaid Cymru |

## Crynodeb Gweithredol

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i barhau i *'adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol'*. Cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, ynghyd ag Aelod Dynodedig Plaid Cymru, â chadeiryddion amrywiaeth o bartneriaethau strategol i brofi cynnydd ers adroddiad yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol ym mis Mehefin 2020, yn ogystal â phwyso a mesur cyfleoedd a rhwystrau i symleiddio partneriaethau, a sut i gyflymu cynnydd.

Dyma brif ganfyddiadau'r broses hon:

- Mae cynnydd wedi bod mewn rhai rhanbarthau a rhwng rhai partneriaethau ers yr adroddiad ar yr adolygiad blaenorol yn 2020;

- Mae amrywiadau rhanbarthol o ran i ba raddau y mae partneriaethau yn gyson ac wedi'u cysylltu. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu dewisiadau lleol ynghylch sut i gysoni partneriaethau strategol, ond mae rhywfaint o anghysondeb o ran sut mae partneriaethau'n cysylltu â'r partneriaethau amlbwrpas ac mae rhai partneriaethau un pwrpas yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o gysylltiad â phartneriaethau eraill;

- Yn yr un modd ag adolygiad 2020, nid oedd unrhyw gefnogaeth i ddiddymu partneriaethau nac ail-gysoni partneriaethau ar lefel genedlaethol. Roedd yr egwyddor o wneud newidiadau i bartneriaethau o dan arweiniad lleol yn cael ei gefnogi;

- Mae perthnasoedd yn hanfodol ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth, a *gall* partneriaethau roi strwythur i berthnasoedd effeithiol, a'u meithrin. Mae angen ymdrech i sicrhau cydweithredu llwyddiannus;

- Gall arweinyddiaeth leol bennu llwyddiant gweithio mewn partneriaeth. Mae gwneud penderfyniadau i flaenoriaethu'r gwerth cyhoeddus ehangach yn hytrach na rhoi ymrwymiadau sefydliadol yn gyntaf yn her i arweinyddiaeth;

- Roedd bod yn benodol am y canlyniadau a geisir gan bartneriaethau, tryloywder a gwelededd yn cael eu hystyried yn bwysig. Mae hyn yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o bwrpas partneriaethau ac yn galluogi partneriaethau eraill i ddeall sut gallant weithio gyda'i gilydd tuag at nodau cyffredin.

Mae'r heriau i wasanaeth cyhoeddus Cymru yn gymhleth ac mae gofyn i nifer o gyrff cyhoeddus gydweithio'n agos i fynd i'r afael â nhw. Mae partneriaethau strategol yn darparu mecanwaith i wasanaethau cyhoeddus gydweithio er budd pawb. Ceir buddiannau cyffredin hefyd ar draws partneriaethau, er enghraifft, gall tai,

camddefnyddio sylweddau, diogelu a diogelwch cymunedol gael effaith andwyol ar rai cymunedau yn fwy nag eraill.

Yr her, felly, yw gwybod sut i wneud y cysylltiadau hynny a phenderfynu buddsoddi mewn partneriaethau, gan roi'r adnoddau priodol iddynt. Yn ddealladwy, mae arweinwyr yn ceisio eglurder ynghylch gwerth ychwanegol penodol partneriaethau cyn buddsoddi amser ac ymdrech ynddynt. Maent hefyd yn ceisio perchnogi'r penderfyniadau ynghylch sut i wneud y cysylltiadau hyn, gan ystyried arweinyddiaeth leol, strwythurau lleol a blaenoriaethau lleol.

Mae rhai partneriaethau wedi gwneud cynnydd ers yr Adolygiad cychwynnol o Bartneriaethau Strategol yn 2020. Mae eraill wedi arbrofi gyda ffyrdd o wneud cysylltiadau, nad ydynt o bosibl wedi'u cynnal. Mae'r ymarfer hwn yn cadarnhau bod gwersi i'w rhannu o bob ymdrech a wnaed i symleiddio trefniadau partneriaeth. Mae rhai camau sylfaenol y gellir eu cymryd hefyd i wneud y dasg hon yn haws ei chyflawni. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar yr heriau penodol ac yn cynnig camau gweithredu ymarferol i gefnogi newidiadau yn y dyfodol.

## Cyflwyniad

1. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i barhau i *'adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol'.* Mae'r ymrwymiad hwn hefyd yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

2. Wrth gyflawni'r ymrwymiad hwn, cynhaliodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, ar y cyd ag Aelod Dynodedig Plaid Cymru, ymarfer ymgysylltu helaeth â chadeiryddion amrywiaeth o bartneriaethau strategol i gasglu safbwyntiau ynghylch cynnydd ers yr adroddiad ar yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol ym mis Mehefin 2020.

3. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r ymarfer ymgysylltu hwnnw, yn nodi casgliadau ar y cynnydd a wnaed o ran symleiddio a chysoni trefniadau gweithio mewn partneriaeth, ac yn cyflwyno argymhellion ar gyfer y camau nesaf.

## Cefndir a chyd-destun

4. Mae gweithio mewn partneriaeth yn ffordd ymarferol o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae cydweithio, integreiddio amcanion a chynnwys eraill yn galluogi gwasanaethau cyhoeddus i edrych i'r hirdymor a chyfrannu cymaint â phosibl at y nodau llesiant.

5. Ym mis Tachwedd 2018, datblygodd Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei set o egwyddorion cydweithio ei hun i ddisgrifio sut y byddai aelodau yn cydweithio â'i gilydd ac â gwasanaethau cyhoeddus eraill.

6. Fodd bynnag, er bod gweithio mewn partneriaeth yn cael ei ystyried yn hanfodol i wasanaethau cyhoeddus effeithiol, mae'r cyd-destun partneriaethau yng Nghymru wedi cael ei ddisgrifio'n aml fel un cymhleth, gyda phryderon yn cael eu mynegi ynghylch amcanion sy'n gorgyffwrdd a dyblygu gweithgarwch a allai fod yn cyfyngu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd partneriaethau. Mae hyn yn atgyfnerthu'r achos dros adolygu gwaith partneriaeth rhanbarthol i sicrhau ei fod yn effeithlon, yn syml ac yn darparu atebolrwydd a rheolaeth ddemocrataidd briodol.

### *Adolygiad o Bartneriaethau Strategol 2019-20*

7. Cynhaliwyd Adolygiad o Bartneriaethau Strategol ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru yn 2019-20, yn dilyn argymhelliad gan y Gweithgor ar Lywodraeth Leol.

8. Ystyriodd tîm yr adolygiad y cyd-destun partneriaethau eang i nodi'r meysydd allweddol lle'r oedd yn teimlo bod cymhlethdod neu ddyblygu diangen, a chyfleoedd i symleiddio a rhesymoli mewn ffordd benodol a phragmatig.

9. Cyflwynodd adroddiad terfynol yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol un ar ddeg o argymhellion, a oedd yn adlewyrchu camau ymarferol i symleiddio'r cyd-destun partneriaethau. Ond, daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw gefnogaeth i ddiddymu unrhyw bartneriaethau penodol ac y dylid canolbwyntio ar gefnogi partneriaethau i symleiddio eu trefniadau eu hunain yn lleol. Nododd fod hyn eisoes wedi digwydd mewn rhai rhannau o Gymru.

10. Roedd argymhellion yr adolygiad yn glir mai cyfrifoldeb partneriaethau lleol yw arwain y gwaith o gysoni partneriaethau yn eu hardal, gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ysgwyddo rôl arweinyddiaeth strategol, a Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth i hwyluso hynny. Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell y dylai Cyngor Partneriaeth Cymru adolygu'r cyd-destun partneriaethau o bryd i'w gilydd i ystyried a oes angen polisi neu newid deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru, a phryd a ble. Cafodd yr argymhellion eu derbyn gan Gyngor Partneriaeth Cymru ym mis Mehefin 2020.

11. Yn dilyn yr Adolygiad, ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd at gadeiryddion partneriaethau strategol i ofyn iddynt ystyried yr argymhellion a nodwyd ynddo. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd wrth bartneriaethau strategol fod ganddynt yr hyblygrwydd i adolygu eu trefniadau eu hunain a rhoi'r trefniadau ar waith sy'n gwneud y mwyaf o synnwyr mewn amgylchiadau lleol. Gall trefniadau o'r fath fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol, a gallai hyblygrwydd gynnwys rhannu adnoddau rhwng byrddau, cyfarfodydd ar y cyd, canlyniadau a rennir neu ryw fath o uno hyd yn oed. Yr unig gyfyngiad a nodwyd oedd bod yn rhaid i bartneriaethau barhau i fodloni'r gofynion statudol presennol.

12. Cynigiodd y Gweinidog ar y pryd hefyd adnoddau i hwyluso trafodaethau rhwng unrhyw bartneriaethau sy'n dymuno adolygu sut gallant symleiddio gweithio mewn partneriaeth, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried y cyd-destun presennol ar gyfer partneriaethau cyn i unrhyw drefniadau newydd gael eu rhoi ar waith.

## Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu - Parhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol

13. Mae'r gwaith i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu / Cytundeb Cydweithio i barhau i 'adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol' wedi cael ei wneud mewn ffordd gymesur a phragmatig. Y nod yw adeiladu ar waith yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol yn 2019-20, a chydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud i gysoni partneriaethau yn y rhanbarthau. Yr egwyddor allweddol sy'n sail i'r ymrwymiad yw y dylai unrhyw newidiadau i drefniadau partneriaeth gael eu

harwain yn lleol, a'u llywio gan yr hyn sy'n gweithio orau ar sail blaenoriaethau lleol a pherthnasoedd presennol.

14. Cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Aelod Dynodedig â chadeiryddion amrywiaeth o bartneriaethau strategol i gasglu safbwyntiau ynghylch cynnydd ers yr adroddiad ar yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol ym mis Mehefin 2020. Nid ailadrodd yr adolygiad llawn a gynhaliwyd yn flaenorol oedd nod yr ymarfer ymgysylltu hwn, ond yn hytrach 'gwirio' a yw canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad hwnnw yn dal yn berthnasol, er mwyn dysgu am gynnydd, a gweld a oes angen cymryd camau pellach, ac os felly, beth ydynt.

15. Defnyddiwyd dull lled-strwythuredig ym mhob un o'r trafodaethau, gan archwilio tri maes allweddol:-

- Gweithgarwch a wneir, neu a gynllunir i sicrhau bod y bartneriaeth yn gyson â gwaith partneriaethau eraill yn yr ardal;
- Cyfleoedd a rhwystrau lleol i gysoni partneriaethau'n well;
- Opsiynau i gyflymu cynnydd wrth gysoni partneriaethau.

16. Y partneriaethau yn y cwmpas ar gyfer yr ymarfer ymgysylltu oedd y rhai a nodwyd yn yr Adolygiad gwreiddiol o Bartneriaethau Strategol.[1]

17. Cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Aelod Dynodedig â chadeiryddion y partneriaethau canlynol fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu:-

<u>Partneriaethau Strategol (aml-bwrpas)</u>

- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

<u>Partneriaethau Polisi Strategol (un pwrpas)</u>

- Byrddau Cynllunio Ardal
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Partneriaethau Diogelu Rhanbarthol

[1] Roedd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn rhan o'r Adolygiad gwreiddiol o Bartneriaethau Strategol, ond cytunwyd i'w tynnu o'r cwmpas ar gyfer yr ymarfer hwn ac o adolygiadau o drefniadau partneriaeth rhanbarthol yn y dyfodol. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn bodoli i ddarparu gwybodaeth am anghenion sgiliau i bartneriaethau eraill fel Bargeinion Dinesig a Thwf. Nid ydynt yn cyflawni polisi'n uniongyrchol nac yn cydweithio'n weithredol â phartneriaethau eraill i ddarparu gwasanaeth.

- Partneriaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

18. Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru ar wahân â Chydlynwyr Datblygu Rhanbarthol sy'n cefnogi Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol, ac arweinwyr strategaeth ar gyfer Partneriaethau Iechyd Meddwl rhanbarthol, dwy bartneriaeth arall o fewn cwmpas yr Adolygiad gwreiddiol, yn lle cyfarfodydd gweinidogol â chadeiryddion.

19. Mae **Atodiad A** yn amlinellu'r mecanweithiau a ddefnyddiwyd i sefydlu pob un o'r partneriaethau o fewn cwmpas yr ymarfer ymgysylltu, yn ogystal â'u pwrpas, eu haelodaeth a'u patrwm.

20. Yn ystod y trafodaethau â chadeiryddion partneriaethau, roedd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ailddatgan yr ymrwymiad i weithio gyda phartneriaethau i symleiddio a rhesymoli trefniadau yn eu hardal lle bo hynny'n briodol, ac ailadrodd y cynnig o gymorth hwyluso i bartneriaethau ystyried eu trefniadau cysoni.

21. Nid oedd effeithiolrwydd partneriaethau unigol yn rhan o gwmpas yr ymrwymiad hwn. Nod yr ymarfer oedd deall gweithgarwch a chynnydd i symleiddio a rhesymoli trefniadau partneriaeth *ar draws* y cyd-destun. Fodd bynnag, nodwyd bod nifer o adolygiadau, a allai effeithio ar y partneriaethau strategol unigol, yn cael eu cynllunio neu ar y gweill, er enghraifft:-

- Mae'r Swyddfa Gartref yn cynnal adolygiad o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, yn dilyn argymhelliad a oedd yn codi mewn adolygiad o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu;
- Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi cytuno bod rhagor o waith yn cael ei wneud i ystyried rôl y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol a'r Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol;
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl newydd, a allai effeithio ar sut mae Partneriaethau Iechyd Meddwl yn gweithio yn y dyfodol.
- Mae ymgynghoriad ar y gweill ar gamau i gryfhau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys newidiadau i reoliadau a chanllawiau statudol.

22. Er ein bod yn ymwybodol o'r gwaith sy'n mynd rhagddo, mae'n rhesymol dod i gasgliadau ar yr egwyddorion a'r fframwaith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws rhanbarthau ar sail yr ymgysylltu a wnaed.

23. Sefydlwyd Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar 1 Ebrill 2021 o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i ddarparu mecanwaith i gefnogi cydweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Ers Mehefin 2022, mae'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â chynllunio trafnidiaeth rhanbarthol, cynllunio defnydd tir yn strategol, a llesiant economaidd. Gan eu bod yn gyfryngau cydweithredol ar

gyfer awdurdodau lleol – ac nid partneriaethau amlasiantaeth – maent wedi'u hystyried y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n agos â Chyd-bwyllgorau Corfforedig i gefnogi eu gweithrediad parhaus. Mae Archwilio Cymru wedi cynnwys ystyried Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu blaenraglen waith.

24. Ar wahân i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol yn ddiweddar i gyflawni ei hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, i ystyried sut i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, a chyhoeddwyd diweddariad ym Mai 2023. Roedd y gwaith maes yn nodi bod ymdrech i gefnogi partneriaethau a chynhyrchu adroddiadau gofynnol, ac y gallai fod arbedion o ran adnoddau i symleiddio'r prosesau hyn.

## Canfyddiadau'r ymarfer ymgysylltu i barhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol

25. Mae dadansoddiad o'r prif ganfyddiadau sy'n deillio o'r ymarfer ymgysylltu â phartneriaethau strategol wedi'i nodi isod.

***Mae partneriaethau'n adolygu eu cysondeb, a'u cysylltiadau, â phartneriaethau eraill yn eu rhanbarthau***

26. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd o ymgysylltu â phartneriaethau strategol yn awgrymu bod canfyddiadau ac argymhellion adroddiad yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol yn 2020 yn dal yn berthnasol, a bod rhywfaint o gynnydd wedi bod o ran cysoni a symleiddio gweithio mewn partneriaeth ers hynny.

27. Cytunir yn gyffredinol bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol, ac mae'r perthnasoedd sy'n cael eu meithrin drwy strwythurau partneriaeth wedi bod yn werthfawr wrth ymateb i'r heriau a wynebwyd dros y blynyddoedd diwethaf, fel pandemig Covid-19 a darparu cymorth i bobl Wcráin, gyda'r partneriaethau'n rhoi 'fframwaith cydnerthedd'.

28. Mae ymdeimlad cryf o berchnogaeth leol ar bartneriaethau, gyda rhai rhanbarthau (i wahanol raddau) yn gweithio ar ganfod y dull gweithredu cywir ar gyfer eu rhanbarth (ac yn cydnabod efallai nad yw hyn yr un fath ym mhob rhan o Gymru), yn hytrach na galwadau penodol am ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. Mae rhai partneriaethau yn adolygu eu cysondeb, a'u cysylltiadau â phartneriaethau eraill yn y rhanbarthau. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at benderfyniadau i uno partneriaethau, mewn eraill mae wedi canolbwyntio mwy ar ddeall gwaith y gwahanol bartneriaethau yn eu rhanbarth yn well, neu adolygu eu ffyrdd o weithio a'u cylch gorchwyl.

29. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd o weithgarwch a wnaed i gysoni gwaith y partneriaethau strategol yn cynnwys:-

- Unodd pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen) yn ffurfiol i ddod yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn 2021, gyda'r un patrwm â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Mae gwaith adolygu diogelwch cymunedol yn mynd rhagddo yng Ngwent ar ôl uno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Unodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr ym mis Mai 2023. Mae hyn yn cynnwys cyfuno strwythurau llywodraethu ac edrych ar gysoni â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn osgoi dyblygu.
- Unodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam ym mis Ionawr 2023, ar ôl cydweithio'n effeithiol yn ystod y pandemig.
- Cynhaliodd Gogledd Cymru adolygiad partneriaeth yn 2019 i resymoli a symleiddio partneriaethau, ac arweiniodd hynny at Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru.
- Mae cadeiryddion byrddau statudol Gogledd Cymru bellach yn cwrdd i drafod meysydd polisi a deddfwriaeth allweddol, gan roi sylw dyledus i feysydd busnes ei gilydd, i wneud y cysylltiadau ac osgoi dyblygu.
- Mae Gogledd Cymru wedi uno'r bartneriaeth VAWDASV â'r Bartneriaeth Caethwasiaeth Fodern i greu Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio – disgrifiwyd hyn fel ffordd o helpu'r bwrdd i ganolbwyntio ar fregusrwydd a chamfanteisio fel un agenda at ddibenion strategol a chynllunio.
- Mae Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant wedi'u cysoni mewn rhanbarthau ledled Cymru ac maent yn gweithredu fel un Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ym mhob rhanbarth. Disgrifiwyd hyn fel proses 'ddi-dor'; un cyfarfod yn canolbwyntio ar oedolion neu blant yn ôl yr angen.
- Roedd gan Ogledd Cymru weithgor ar y cyd i gasglu un set o ddata ar gyfer asesu anghenion y boblogaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r asesiad llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, wedi gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, i gynnal gwaith yn adolygu blaenoriaethau a threfniadau cyflawni partneriaethau.

30. Mae rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cymryd camau i gydweithio'n agosach, ee mae Cadeiryddion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn cwrdd yn rheolaidd i drafod blaenoriaethau a sut mae'r ddau fwrdd yn gyson; ac mae cadeiryddion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn eistedd ar fyrddau ei gilydd, gyda'r cydlynwyr perthnasol hefyd yn gweithio yn yr un tîm.

31. Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod partneriaethau yn dod at ei gilydd i rannu gwybodaeth fel sail ar gyfer cynllunio gan y partneriaethau perthnasol. Awgrymwyd yn y cyfarfod gyda chadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y byddai storfa ar-lein i rannu dysgu, arferion a chynlluniau yn ateb ymarferol i bob partneriaeth.

***Anghysondeb rhwng partneriaethau amlbwrpas a phartneriaethau un pwrpas***

32. Mae amrywiadau rhanbarthol i'r graddau y mae partneriaethau'n gyson ac wedi'u cysylltu, yn enwedig y cysylltiadau rhwng y partneriaethau un pwrpas a chysylltiad y partneriaethau un pwrpas â'r partneriaethau amlbwrpas.

33. Ar draws Cymru, mae maint y cysylltiad rhwng partneriaethau yn amrywio, gyda rhai'n cysylltu mwy â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a rhai yn teimlo nad ydynt yn cysylltu'n ddigonol ag un o'r rhain.

34. Roedd cysylltiad eithaf da rhwng rhai partneriaethau un pwrpas a phartneriaethau perthnasol eraill, ee Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd y Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol a'r Partneriaethau Iechyd Meddwl yn dweud eu bod, ar y cyfan, yn llai ymwybodol o sut roedd eu gwaith yn cysylltu â rhai partneriaethau eraill, er y byddai buddiannau'n gorgyffwrdd, ee o ran cefnogi pobl agored i niwed.

***Dim barn gyson am y patrwm gorau na nifer y partneriaethau***

35. Cydnabuwyd bod y cyd-destun partneriaethau yn gallu bod yn gymhleth, ac y gallai symleiddio hyn arwain at fanteision, ond bod hyn hefyd yn heriol gan nad oes *'un ateb yn addas i bawb'*. Roedd safbwyntiau gwahanol ynghylch a ddylid uno neu integreiddio partneriaethau, weithiau o fewn yr un math o bartneriaethau, ac yn gyffredinol roedd y cwmpas ar gyfer penderfynu'n lleol yn cael ei werthfawrogi. Nododd rhai cadeiryddion mai eu rôl hwy yw sicrhau nad oes dyblygu, ac mae perthnasoedd cryf ac eglurder ynghylch y canlyniadau a geisir yn hanfodol.

36. Cydnabuwyd, ar draws yr holl ymgysylltu â phartneriaethau strategol, fod rhywfaint o fuddiannau cyffredin gydag un neu ragor o bartneriaethau. Roedd y farn yn amrywio o ran sut i reoli hyn. Lle trafodwyd hyn yn benodol, dywedodd lleiafrif fod gormod o bartneriaethau efallai, gyda themâu cyson yn cael eu hystyried a dyblygu posibl. Teimlai eraill fod gan bartneriaethau wahanol rolau a safbwyntiau mewn perthynas â mater, a cheir cyfle i ddod ag arbenigedd gwahanol at ei gilydd ar draws y partneriaethau. Roedd lleiafrif bach yn teimlo y gellid cyfuno partneriaethau un pwrpas neu eu hintegreiddio'n agosach, er bod eraill yn teimlo bod potensial i'r ffocws ar faterion penodol, pwysig gael ei golli pe bai hyn yn digwydd.

37. Lle bo hynny'n berthnasol, roedd y llinellau adrodd ar gyfer partneriaeth yn fater a godwyd mewn nifer o'r cyfarfodydd. Roedd rhai partneriaethau un pwrpas yn teimlo eu bod yn cyd-fynd yn fwy naturiol neu'n fwy datblygedig â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac eraill â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Weithiau nid oedd y cysylltiadau hyn yn ffurfiol nac yn gyson.

38. Roedd Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn unfrydol y dylent aros yn annibynnol a pheidio â chael eu cynnwys mewn partneriaeth arall na chael eu gweld mewn hierarchaeth, oherwydd eu cyfrifoldeb i ddal partneriaethau eraill i gyfrif am faterion diogelu. Roedd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol o'r farn bod angen llwybr clir a gwell cysylltiad rhwng diogelu, diogelwch cymunedol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

***Mae perthnasoedd ac arweinyddiaeth unigol yn allweddol***

39. Nodwyd bod perthnasoedd da yn hanfodol ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth, ond hefyd bod partneriaethau'n *gallu* rhoi strwythur i berthnasoedd effeithiol, a'u meithrin. Dywedodd un cadeirydd mai'r rhwystr mwyaf i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth yw pobl yn blaenoriaethu ymrwymiadau sefydliadol, a soniodd un arall am faterion sy'n cael eu rhannu'n adrannau yn eu rhanbarth oherwydd trefniadau atebolrwydd i'w sefydliadau eu hunain.

40. Yn y cyfarfod gyda Chadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn benodol, awgrymwyd y dylid canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd yn hytrach na dylunio strwythurau newydd. Ategwyd hyn yn ystod cyfarfod Cyngor Partneriaeth Cymru ym mis Mawrth 2023.

41. Roedd defnyddio amser pobl i'r eithaf, a chydnabod bod rhai pobl wedi mynychu amrywiol gyfarfodydd partneriaeth gwahanol, wedi codi yn llawer o'r ymarferion ymgysylltu â phartneriaethau. Nid oedd hyn bob amser yn cael ei ystyried yn negyddol, gyda rhai'n gweld bod hyn yn ddefnyddiol yn eu rôl, gan eu galluogi i wneud cysylltiadau ag agendâu a rennir ac osgoi dyblygu yn eu gwaith.

42. Roedd cael statws priodol y bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n bresennol yn neges gyson, gyda lleiafrif yn teimlo nad yw hyn yn cael ei gyflawni bob amser (gydag effaith, o ganlyniad, ar wneud penderfyniadau). Roedd sicrhau bod digon o gefnogaeth gan swyddogion i'r partneriaethau hefyd yn thema gyson. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn hanfodol i sicrhau bod gwaith yn symud ymlaen mewn ffordd strwythuredig ac atebol, gan roi gwytnwch i gadeiryddion. Roedd rhywfaint o bryder ynghylch a oedd digon o swyddogion ar gael i wasanaethu partneriaethau orau.

***Gweld gwerth mewn hyblygrwydd a phenderfyniad lleol, a'r ymdeimlad o gyfrifoldeb lleol***

43. Tynnwyd sylw at sefydlogrwydd fel rhywbeth arbennig o bwysig gan rai, ac mae caniatáu i ardaloedd lleol esblygu a chysoni partneriaethau fel maent yn ei gredu sydd orau yn dal yn neges gref, fel yr oedd yn yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol. Cyflwynwyd sylwadau fel '...*mae'r ateb yn wahanol*

*ar gyfer gwahanol rannau o Gymru*,' ac '...*mae angen sefydlogrwydd arnon ni yn fwy nag unrhyw beth arall*'.

44. Roedd teimlad yn gyffredinol, gyda chysylltiadau da a blaenoriaethau clir, mai partneriaid oedd yn y sefyllfa orau i benderfynu beth sydd ei angen o ran cysondeb mewn rhanbarth. Nid oedd galw penodol na chyson ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd mewn perthynas â chysoni neu symleiddio partneriaethau. Disgrifiodd sawl cadeirydd, o wahanol bartneriaethau a rhanbarthau, sut mae'r perthnasoedd lleol yn ddigon aeddfed i wneud penderfyniadau ynghylch lle i gysoni a chysylltu â phartneriaethau eraill, er eu bod hefyd yn cydnabod yr anawsterau sy'n codi lle nad oes perthynas o ansawdd.

45. Dywedodd cadeiryddion partneriaethau hefyd, er y gwerthfawrogir penderfyniadau lleol, y dylid pennu safonau penodol yn genedlaethol er mwyn osgoi amrywiadau. Roedd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr partneriaethau ar lefel swyddogion yn awgrymu y byddai'n fuddiol cael mwy o eglurder ynghylch y cysylltiadau rhwng partneriaethau, a chyfrifoldebau'r naill a'r llall.

***Canolbwyntio ar ganlyniadau, a defnyddio'r rhain i bennu cyfrifoldebau'r naill a'r llall***

46. Roedd pwysigrwydd bod yn benodol am y canlyniadau a geisir a phwrpas y bartneriaeth yn neges a gododd mewn tua hanner y cyfarfodydd â chadeiryddion. Roedd tryloywder a gwelededd hefyd yn cael eu gwerthfawrogi, yn adleisio argymhelliad yr adolygiad gwreiddiol, sef bod partneriaethau strategol yn cyhoeddi gwybodaeth sylfaenol fel cylch gorchwyl, pwrpas a chamau gweithredu / canlyniadau allweddol.

## Casgliadau

47. Mae canfyddiadau'r ymarfer ymgysylltu â phartneriaethau strategol yn dangos rhywfaint o gynnydd clir ers adroddiad yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol yn 2020. Roedd tystiolaeth bod partneriaethau'n defnyddio hyblygrwydd i drefnu eu hunain yn wahanol lle mae'n gwneud synnwyr yn lleol i wneud hynny. Roedd cydnabyddiaeth hefyd bod mwy i'w wneud, ac arwyddion y gallai fod angen mwy o gefnogaeth ar rai ardaloedd ar gyfer hyn. Ond roedd digon o aeddfedrwydd yn gyffredinol mewn partneriaethau a rhanbarthau i wneud y penderfyniadau iawn ar gyfer eu hardaloedd ar y patrwm a'r cysondeb gorau.

48. Fel gyda'r adolygiad cynharach, nid oedd galw yn ystod yr ymarfer hwn ar Lywodraeth Cymru i arwain newid strwythurol nac i ddeddfu ar gyfer hynny. Yn hytrach, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor y *'Dylai unrhyw newidiadau gael eu harwain yn lleol a'u hysgogi gan yr hyn sy'n gweithio orau a dylid eu seilio ar flaenoriaethau lleol a chysylltiadau sy'n bodoli eisoes.'*

49. Un gwahaniaeth cynnil ond arwyddocaol o asesiadau cynharach yw nad oedd canfyddiadau'r ymarfer hwn yn canolbwyntio'n anghymesur ar gymhlethdod y cyd-destun ledled Cymru, ond yn hytrach yn tynnu sylw at sut roedd rhanbarthau'n diffinio'r dull gweithredu cywir, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ac yn ceisio meithrin cysylltiadau a pherthnasoedd. Nid oedd y dull ymgysylltu a ddefnyddiwyd gyda phartneriaethau strategol yn caniatáu dadansoddiad na map manwl o sut roedd pob un o'r partneriaethau strategol perthnasol yn cyd-fynd â'i gilydd ar batrwm lleol neu ranbarthol. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r cyfarfodydd gyda phartneriaethau strategol bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau cysylltiadau priodol rhwng yr holl bartneriaethau perthnasol, ac efallai y bydd angen cefnogi rhai partneriaethau un pwrpas gyda buddiannau sy'n gorgyffwrdd i gysylltu mewn rhai ardaloedd.

50. Gall y cyd-destun partneriaethau fod yn gymhleth, ond mae'r materion y mae partneriaethau'n edrych arnynt yn gymhleth, yn amlochrog, ac mae angen ymateb amlasiantaeth ar eu cyfer. Nodwyd hyn gan y partneriaethau eu hunain, gan gydnabod yr angen i ddeall blaenoriaethau ac amcanion y naill a'r llall.

51. Mae llawer i'w ddysgu o'r gweithgarwch a wnaed ac sydd ar y gweill, a neges o'r gweithgaredd ymgysylltu oedd bod partneriaethau'n croesawu'r cyfle i gwrdd ag eraill i bwyso a mesur eu dulliau gweithredu. Dylid hefyd ddefnyddio'r profiad o weithio mewn partneriaeth, a'r twf yn y math hwn o weithio, drwy bandemig Covid-19 fel sail i ymarfer yn y dyfodol.

## Meysydd arfaethedig ar gyfer gweithredu ar y cyd

### Thema 1: Cydgyfrifoldeb dros effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyd-destun partneriaethau

52. Cydnabyddir y bydd newidiadau ar y gorwel bob amser a allai effeithio ar drefniadau partneriaeth rhanbarthol. Yn briodol iawn, mae ymateb i hyn yn nwylo arweinwyr lleol a rhanbarthol, sy'n addasu eu dull o weithio mewn partneriaeth, ac yn defnyddio'r hyblygrwydd sydd ganddynt, i adlewyrchu'r blaenoriaethau presennol yn ogystal â gweithio yn yr hirdymor ar ran pobl yr ardal.

53. Dylai adolygiad cymesur cyfnodol o'r cyd-destun o safbwynt cenedlaethol ar adegau rhesymol ategu hyn, gan alluogi i ymarfer effeithiol ar lefel ranbarthol gael ei amlygu a'i rannu, yn ogystal ag unrhyw gyfleoedd neu rwystrau i'w nodi a gweithredu arnynt yn briodol.

54. Mae Cyngor Partneriaeth Cymru, fel y brif ffordd o ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid, mewn sefyllfa dda i wneud y cysylltiad rhwng materion lleol a chenedlaethol a darparu arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

**Thema 2: Arweinyddiaeth leol er mwyn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ac yn effeithlon**

55. Ar batrwm lleol neu ranbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw'r prif bartneriaethau strategol. Maent yn cynnwys uwch-arweinwyr y sefydliadau hynny a fyddai'n elwa ar gael llwybr mwy clir rhyngddynt â'r partneriaethau eraill. Rhaid cytuno ar y trefniadau gorau posibl ar gyfer rhannu gwybodaeth neu ar y 'llinellau adrodd' gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Y byrddau strategol hyn sydd yn y sefyllfa orau i arwain ar y gwaith manwl o benderfynu ar y trefniadau hynny, neu o'u comisiynu, i sicrhau bod unrhyw ymdrechion i symleiddio'r trefniannau rhanbarthol yn llwyddo.

56. Dylai pob partneriaeth – ac, yn wir, pob bwrdd – gynnal adolygiadau rheolaidd o'i aelodaeth a'i gylch gorchwyl ei hun. Mae hyn o gymorth wrth bwyso a mesur a yw'r bwrdd yn cyflawni ei ddiben, a sut, ac mae'n cynnig cyfle i sicrhau, gan ystyried y penderfyniadau y mae'n ofynnol i'r aelodau eu gwneud, fod yr aelodau hynny yn rhai sy'n gweithredu ar lefel uchel. Mae aelodau partneriaethau yn cael eu tynnu o amrywiol sefydliadau ac mae'n bwysig, felly, fod dealltwriaeth gyffredin rhwng pawb o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt.

**Thema 3: Fframwaith cyson ar gyfer gweithio mewn partneriaeth**

57. Canfu'r adolygiad ei bod yn debygol bod rhai egwyddorion cyffredin y byddai'n ddefnyddiol eu cymhwyso'n genedlaethol, i lywio a hwyluso penderfyniadau lleol. Gallai'r rhain gynnwys cadarnhau'r partneriaethau strategol hynny sydd o fewn cwmpas, cyhoeddi cylch gorchwyl y partneriaethau, y trefniadau dirprwyo (a'r awdurdod i wneud penderfyniadau), y protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth, adnoddau briffio/cymorth ar gyfer aelodau newydd o'r bwrdd ac a ddylai rhai partneriaethau ddisgwyl gael eu cysylltu ar draws Cymru, ee rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn ardal. Mae llawer o dystiolaeth wedi'i chasglu yn yr adolygiad hwn, ond mae'n briodol i'r partneriaethau bennu'r egwyddorion hyn. Dylai'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig ag unrhyw egwyddorion a argymhellir gael ei gadw mewn cof. Dylid rhannu unrhyw ganllawiau o'r fath er mwyn i bob parti allu eu hystyried.

58. Roedd Cyd-bwyllgorau Corfforedig y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn oherwydd roeddent yn dal i gael eu ffurfio ac nid ydynt yn bartneriaethau amlasiantaeth. Cyrff corfforaethol rhanbarthol ydynt ac mae ganddynt bwerau a dyletswyddau sy'n debyg, yn gyffredinol, i rai'r awdurdodau lleol. At hynny, nid oedd yr ymarfer ymgysylltu wedi codi unrhyw faterion ynghylch y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r cyd-destun partneriaethau. Fodd bynnag, nawr eu bod wedi cael eu sefydlu, mae'n bwysig bod perthnasoedd yn cael eu meithrin, yn enwedig gyda'r partneriaethau strategol amlasiantaeth. Dylai gwaith i

ddatblygu egwyddorion ystyried y cysylltiadau â'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn yr ardal benodol.

**Thema 4: Rhannu ymarfer a dysgu**

59. Mae nifer o gyrff cyhoeddus sydd eisoes yn darparu cymorth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus i'w helpu i rannu tystiolaeth, arbenigedd a phrofiad. Er enghraifft, mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn derbyn cyllid i helpu i gefnogi'r gwaith o hidlo'r dystiolaeth a'i chymhwyso i wasanaethau cyhoeddus, gan ystyried blaenoriaethau'r cynlluniau llesiant lleol. Mae Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn gweithio gyda chlystyrau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth sy'n deillio o ymgysylltu â chymunedau, a'u cynnwys, wrth gyflwyno cynlluniau llesiant lleol. Mae partneriaid eraill hefyd yn rhannu eu hadnoddau i fuddsoddi ym mharodrwydd y gwasanaethau cyhoeddus o safbwynt themâu polisi a/neu dulliau gweithio penodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae cael dealltwriaeth glir o'r cymorth sydd ar gael ar draws Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn fanteisiol i'r cyd-destun partneriaethau.

60. Yn ehangach, mae'r adolygiad hwn eisoes wedi dangos bod cyfoeth o brofiad wedi'i fagu o'r hyn oedd yn llwyddiannus – a'r hyn nad oedd mor llwyddiannus – yn yr ardaloedd hynny lle y mae cynnydd wedi'i wneud o ran symleiddio trefniadau partneriaethau rhanbarthol. Mae'r adolygiad hwn yn argymell y dylid rhannu'r profiadau hyn mewn ffordd sy'n golygu y gall pob partneriaeth – a phob sefydliad sy'n aelod – elwa arni.

**Argymhellion**

61. Bwriad yr argymhellion canlynol yw cefnogi gweithredu ar y cyd parhaus i gysoni a symleiddio gweithio mewn partneriaeth.

| **Thema 1: Cydgyfrifoldeb dros effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyd-destun partneriaethau** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Argymhelliad** | **Perchennog** | **Amserlen** |
| 1. | Cyngor Partneriaeth Cymru i fod â chydgyfrifoldeb dros effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwaith partneriaeth rhanbarthol a goruchwylio adolygiadau o'r cyd-destun partneriaethau yn y dyfodol. | Cyngor Partneriaeth Cymru | Cydgyfrifoldeb – parhaus.<br><br>Diweddaru Cyngor Partneriaeth Cymru o leiaf unwaith fesul cylch etholiadol llywodraeth leol. |
| | | | |

| Thema 2: Arweinyddiaeth leol er mwyn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ac yn effeithlon | | | |
|---|---|---|---|
| | **Argymhelliad** | **Perchennog** | **Amserlen** |
| 2. | Fel y prif bartneriaethau strategol amlbwrpas, dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu arweiniad lleol ar gyfer cysoni gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys archwilio llwybrau o’r partneriaethau un pwrpas i’r partneriaethau amlbwrpas. | Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol | Bob blwyddyn. |
| 3. | Partneriaethau strategol i fyfyrio’n rheolaidd ar gysondeb partneriaethau fel rhan o adolygiadau o’i gylch gorchwyl, i warchod rhag dyblygu a manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i wasanaethu’r bobl yn eu cymunedau. | Partneriaethau strategol lleol/rhanbarthol | Yn amodol ar adolygiad y partneriaethau eu hunain o’r cylch gorchwyl. |
| 4. | Partneriaethau i sicrhau bod pob aelod yn glir ynghylch rôl a chyfrifoldebau’r bartneriaeth, a sut gall partneriaid gyfrannu’n fwyaf effeithiol, gan gynnwys sut gallant wneud cysylltiadau lle maent yn aelodau o fwy nag un bartneriaeth. | Partneriaethau strategol lleol/rhanbarthol | Parhaus. |
| **Thema 3: Fframwaith cyson ar gyfer gweithio mewn partneriaeth** | | | |
| | **Argymhelliad** | **Perchennog** | **Amserlen** |
| 5. | Egwyddorion cenedlaethol craidd i’w datblygu ar gyfer cysoni gweithio mewn partneriaeth y gellir eu cymhwyso’n rhanbarthol – gallai egwyddorion o’r fath gynnwys, er enghraifft, yr angen am eglurder ar linellau adrodd (‘llwybr clir’), aelodaeth, cylch gorchwyl, sut i fynd i’r afael â buddiannau sy’n gorgyffwrdd, a threfniadau cynefino ar gyfer aelodau newydd. | Sefydlu gweithgor o Gyngor Partneriaeth Cymru i gyd-ddatblygu egwyddorion drafft a’r Cyngor Partneriaeth i gymeradwyo’r egwyddorion terfynol i’w rhannu â’r holl | Erbyn Ebrill 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | bartneriaethau strategol | |
| 6. | Perchnogion polisi i sicrhau bod canllawiau'n glir ar sut mae eu partneriaeth yn rhyngweithio â phartneriaethau eraill | Perchnogion polisi | Parhaus |
| **Thema 4: Rhannu ymarfer a dysgu** | | | |
| | **Argymhelliad** | **Perchennog** | **Amserlen** |
| 7. | Rhannu arferion yn genedlaethol, yn benodol ar gysoni a symleiddio trefniadau partneriaeth mewn ardal. | Pob corff gwasanaeth cyhoeddus, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, CLlLC a chyrff cynrychioliadol eraill, Academi Wales, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Rhwydwaith Cydgynhyrchu, Llywodraeth Cymru | Parhaus |

## Atodiad A - Partneriaethau o fewn cwmpas yr ymarfer ymgysylltu

| Partneriaeth | Statudol? | Darpariaeth | Pwrpas | Partneriaid | Patrwm |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Ydy | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rhan 4 | Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. | <u>Statudol</u><br>Awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol, awdurdod Tân ac Achub perthnasol, Cyfoeth Naturiol Cymru.<br><br><u>Wedi'u gwahodd</u><br>Gweinidogion Cymru, prif gwnstabl ardal yr heddlu (y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol), comisiynydd heddlu a throseddu ar gyfer ardal yr heddlu, gwasanaeth prawf, corff sy'n cynrychioli sefydliad gwirfoddol perthnasol. | Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus canlynol yn gweithredu yn ôl patrwm awdurdod lleol:<br>• Powys<br>• Caerfyrddin<br>• Ceredigion<br>• Sir Benfro<br>• Abertawe<br>• Castell-nedd Port Talbot<br>• Bro Morgannwg<br>• Caerdydd<br><br>Mae nifer o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi uno o batrwm awdurdodau lleol i batrwm ehangach:<br>• Conwy a Sir Ddinbych<br>• Sir y Fflint a Wrecsam<br>• Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful) |

| Partneriaeth | Statudol? | Darpariaeth | Pwrpas | Partneriaid | Patrwm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen<br><br>• Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd wedi dewis cydweithio i lunio cynllun ac asesiad ar y cyd ar gyfer eu hardaloedd, ond nid ydynt wedi uno'n ffurfiol. |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Ydy | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 9<br><br>Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 fel y'u diwygiwyd. | Rhaid i awdurdodau lleol gydweithio â Byrddau Iechyd Lleol a phartneriaid eraill sy'n darparu gofal a chymorth.<br><br>Y pwrpas yw sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol a sicrhau bod gwasanaethau, gofal a | Bwrdd Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol (Gofal Cymdeithasol, Addysg, Tai), y trydydd sector, gofalwyr, dinasyddion | Bwrdd Iechyd |

| Partneriaeth | Statudol? | Darpariaeth | Pwrpas | Partneriaid | Patrwm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | chymorth effeithiol ar waith. | | |
| Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Ydy | Adrannau 5-7 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 | Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar brif weithredwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd, prif gwnstabliaid a phrif swyddogion tân a phrif swyddogion y gwasanaethau prawf i weithio mewn partneriaeth i atal a lleihau trosedd ac anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymddygiad sy’n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd, camddefnyddio sylweddau ac aildroseddu. | Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, Cyfiawnder Ieuenctid, Bwrdd Cynllunio Ardal, Tân ac Achub, y Gwasanaeth Prawf a’r Bwrdd Iechyd | Awdurdod lleol |
| Partneriaeth diogelu oedolion[2] | Ydy | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 134 | Mae adran 135(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn pennu amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion, sef amddiffyn oedolion yn ei ardal sydd ag | Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a | Bwrdd Iechyd yn fras, yr eithriad yw bod un Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sy’n cynnwys Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ôl patrwm Bwrdd Iechyd |

[2] Yn ymarferol, mae byrddau diogelu Oedolion a Phlant wedi’u cysoni i greu un Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

| Partneriaeth | Statudol? | Darpariaeth | Pwrpas | Partneriaid | Patrwm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | anghenion gofal a chymorth ac sy’n cael, neu sydd mewn perygl o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso, a hefyd atal oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. | Throseddu, Tai, Sefydliadau Trydydd Sector | Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Partneriaeth diogelu plant[3] | Ydy | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 134 | Mae adran 135(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn pennu amcanion Bwrdd Diogelu Plant, sef amddiffyn plant yn ei ardal sy’n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio fel arall neu sydd mewn perygl o hynny ac atal plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef niwed arall. | Awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Tai, Sefydliadau Trydydd Sector | Bwrdd Iechyd yn fras, yr eithriad yw bod un Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sy’n cynnwys Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ôl patrwm Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Grwpiau Cydweithredol | Nac ydy | | Fel fforwm ar gyfer cydweithio ar lefel ranbarthol, disgwylir i | Awdurdodau lleol, Iechyd, Prawf, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Byrddau | Bwrdd Iechyd yn fras, yr eithriad yw bod un Grŵp Cydweithredol Cymorth |

[3] Yn ymarferol, mae byrddau diogelu Oedolion a Phlant wedi’u cysoni i greu un Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

| Partneriaeth | Statudol? | Darpariaeth | Pwrpas | Partneriaid | Patrwm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tai Rhanbarthol | | | Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol feithrin perthnasoedd/cysylltiadau gweithio agos â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn, lle bo hynny'n briodol, gallu comisiynu, dylunio neu ganolbwyntio gwasanaethau ar y cyd i wneud y gorau o ddibenion ategol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Thai â chymorth. | Cynllunio Ardal, Partneriaethau Rhanbarthol VAWDASV, llais defnyddwyr gwasanaeth, Darparwyr Gwasanaeth a Landlordiaid | Tai Rhanbarthol sy'n cynnwys Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ôl patrwm Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Bwrdd Cynllunio Ardal | Na, er eu bod wedi dod â threfniadau blaenorol at ei gilydd sydd â sail statudol | Fe'i sefydlwyd yn 2010 fel rhan o'r trefniadau newydd i gyflawni Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed'. | Bwriedir i Fyrddau Cynllunio Ardal ddarparu fframwaith rhanbarthol, gan gryfhau gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth strategol wrth gyflawni'r strategaeth camddefnyddio sylweddau; a mireinio a gwella swyddogaethau allweddol cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad. | Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Lleol, Darparwyr Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau, yr Heddlu, Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron | Bwrdd Iechyd |

**Atodiad A**

| Partneriaeth | Statudol? | Darpariaeth | Pwrpas | Partneriaid | Patrwm |
|---|---|---|---|---|---|
| VAWDASV | Ydy | Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015<br><br>Mae canllawiau statudol yn nodi y dylent geisio gweithio'n rhanbarthol yn ôl patrwm y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. | Mae Adran 5 o Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol baratoi strategaeth ar gyfer ardal yr awdurdod lleol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). | Awdurdodau lleol, yr Heddlu, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Gwasanaethau Prawf, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Gwasanaeth Tân ac Achub, Byrddau Diogelu, partneriaid sector arbenigol VAWDASV a sefydliadau'r sector gwirfoddol | Bwrdd Iechyd yn fras, yr eithriad yw bod un Bwrdd partneriaeth VAWDASV sy'n cynnwys Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ôl patrwm Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Partneriaethau Iechyd Meddwl | Na, er ei fod yn cefnogi darparu gwasanaethau o ganlyniad i ddeddfwriaeth. | Cysylltiadau â gweithredu:<br><br>Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010<br><br>Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth | Gweithredu'r *Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* ac adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Cenedlaethol<br><br>Monitro llesiant iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda | Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau lleol o dan batrwm pob bwrdd iechyd, ac ystod o bartneriaid eraill | Bwrdd Iechyd |

| Partneriaeth | Statudol? | Darpariaeth | Pwrpas | Partneriaid | Patrwm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Ranbarthol) (Cymru) 2012 | gwasanaethau tai, asiantaethau cyfiawnder troseddol, addysg a chysylltu â grwpiau partneriaeth lleol presennol, fel partneriaethau diogelwch cymunedol. | | |